# Cyfarfod Y Pwyllgor Deddfau

## Cofnodion (LEG(2)-04-07):

### Dyddiad y Cyfarfod: 6 Chwefror 2007
### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd

#### Aelodau’r Cynulliad yn Bresennol:

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

#### Swyddogion

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

#### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Ann Jones**

**Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-03-07**

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2007.

**Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd**

3.1. Gan nad oedd unrhyw eitemau i'w nodi fe aeth y Cadeirydd ymlaen yn uniongyrchol i drafod deddfwriaeth.

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

4.1 LC1453 – Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007

Gofynnodd y Cynghorydd Cyfreithiol i'r Aelodau gytuno i fewnosod un frawddeg i'r adroddiad i'r perwyl bod y gwall a nodwyd o dan Reol Sefydlog 11.7(v) yn addas i'w gywiro drwy Femorandwm cywiriadau a chytunodd y Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 Mewn perthynas ?146;r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1443 – Rheoliadau Cynhyrchion sy'n dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

LC1448 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007

LC1449 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007

LC1450 – Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007

LC1451 – Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ?eddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007

LC1452 – Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007

LC1454 – Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007

LC1455 – Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007

## Camau i'w cymryd

Ni chafwyd unrhyw bwyntiau gweithredu

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2007.